Mae **Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd**, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lansio adnodd e-Ddysgu Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'i anelu at GIG Cymru Mae'r platfform dysgu ar-lein rhad ac am ddim hwn wedi'i anelu at weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru ac i unrhyw un yn y GIG sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am **Ddinasyddiaeth Fyd-eang**, beth ydyw a deall profiadau a safbwyntiau gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a sut y gallant fod yn ddinasyddion byd-eang gwell.

Mae'r adnodd wedi'i greu i annog datblygiad Dinasyddiaeth Fyd-eang a bydd yn galluogi staff y GIG i wneud y canlynol:

- Dysgu pam mae anghydraddoldebau yng Nghymru a'r byd a'u heffaith ar iechyd
- Cymryd rhan mewn trafodaethau ar iechyd a datblygiad cenedlaethol a themâu a phynciau eraill
- Cwestiynu safbwyntiau a phersbectifau
- Herio ystrydebau
- Dysgu am effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a gwleidyddol globaleiddio, yn enwedig ar iechyd a'r GIG
- Edrych ar eu gwerthoedd eu hunain a sut y maent yn effeithio ar eraill
- Gwrando ar wahanol safbwyntiau, eu deall a'u parchu
- Myfyrio a datblygu sgiliau meddwl beirniadol
- Deall y ffyrdd gwahanol o leihau tlodi byd-eang
- Datblygu a chefnogi eu datblygiad personol a phroffesiynol

Wedi'i rannu yn chwe modiwl, â ffocws ar gymorth a datblygiad, iechyd sy'n seiliedig ar hawliau, globaleiddio, heddwch a gwrthdaro a newid hinsawdd, mae'n hawdd cael gafael ar yr adnodd hwn, mae'n hawdd ei ddefnyddio a bydd yn hynod werthfawr i bob gweithiwr iechyd proffesiynol.

Dinesydd Byd-eang
Cymorth a Datblygiad
Iechyd sy'n Seiliedig ar Hawliau
Globaleiddio
Heddwch a Gwrthdaro
Newid Hinsawdd

https://learning.wales.nhs.uk/course/search.php?search=global%20citizenship&lang=cy

Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru** wedi comisiynu'r adnodd ar y cyd â **Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru** ac **Oxfam Cymru.**